

Llwybrau Cerdded Treftadaeth

Dewch i ddarganfod Aberdaugleddau trwy gyfres o dri llwybr treftadaeth newydd, yn ardal y glannau Aberdaugleddau, a grëwyd gan bobl ifanc yr ardal.

Crëwyd tri llwybr cerdded treftadaeth sy'n dathlu straeon a naws am le ein tref, i bawb eu mwynhau. Cafodd prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac a gydlynwyd gan Milford Youth Matters, ei lansio yn 2021, a gofynnwyd i ddisgyblion Ysgol Aberdaugleddau ymchwilio i straeon am 'Ein Hafan Hanesyddol', 'Teyrnas Ynni' a'r 'Dyfrffyrdd', sef y themâu allweddol sy'n gwneud Aberdaugleddau yn lle mor unigryw.

Fe wnaeth y criw ifanc waith gwych, nid yn unig o hel straeon diddorol am hanes Aberdaugleddau, ond hefyd am wneud gwaith dylunio creadigol tu hwnt i gyd-fynd â'u hanesion. Aeth panel o feirniaid ati i adolygu 30 a mwy o geisiadau, a dewiswyd detholiad ohonynt i'w cynnwys ar ein gwefan. Rydym yn falch o dathlu straeon Aberdaugleddau gyda'r tri Llwybr Cerdded Treftadaeth ar hyd y glannau, a rhannu'r stori lawn ar ein gwefan.

Dyfrffyrdd

Bydd llwybr Dyfrffyrdd Aberdaugleddau yn mynd â chi ar hyd Cei Nelson, gan gychwyn tu fas i Scott's Sweet Shop a gorffen ger Talouies. Cadwch lygad am y baneri glas golau ar y polion lamp, a'r arwyddion oddi tano lle gallwch stopio a sganio'r cod QR i ddarllen y straeon llawn a ysgrifennwyd gan bobl ifanc ein tref.

1 – Hanes capten llong o Aberdaugleddau

Awn â chi'n ôl i 1898 a stori'r capten lleol, Ralph Light, a'i deulu. Dilynwch ei daith drwy'r Rhyfel Byd Cyntaf ac ar y treill-longau wrth iddo hwylio'r moroedd cyn dychwelyd adre'n ddi-ffael i Aberdaugleddau.

Arferai fy nhad-cu Stanley Light, sy'n 93 oed, weithio fel labrwr a gwneuthurwr boelerau yn nociau Aberdaugleddau, fel ei dad yntau, fy hen dad-cu Ralph Light. Ganed Ralph Light yn Nyfnaint yn 1898. Gadawodd yr ysgol yn 14 oed, a phan oedd yn ddigon hen, ymunodd â'r llynges Frenhinol gan frwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd Ralph fedalau am ei ymdrechion yn ystod y rhyfel. Ar ôl dychwelyd o'r llynges, aeth Ralph i weithio yn y diwydiant pysgota yn nociau Aberdaugleddau.

Dechreuodd Ralph fel pysgotwyr cyn symud ymlaen i fod yn gapten llong yn 1927, ac yntau'n 29 oed.

Bu'n gweithio i gwmni pysgota yn nociau Aberdaugleddau ac yn gweithio ar eu cwch nhw. Roedd Ralph yn gapten ar griw o 10-11 o ddynion. Byddai'r cwch yn mynd mas i'r môr i dde Iwerddon o Aberdaugleddau i bysgota am bysgod cegddu.

Unwaith roedd y cwch yn llawn dop o bysgod, a roddwyd ar rew, byddent yn dychwelyd i ddociâu Aberdaugleddau i werthu'r cynnyrch yn y farchnad. Gallai Ralph fod i ffwrdd am wythnosau ar y tro yn pysgota'r môr. Roedd teulu cyfan Ralph yn ymwneud â'r diwydiant pysgota, fel cynifer o deuluoedd eraill Aberdaugleddau, a dyna pam mae'r diwydiant pysgota yn rhan mor anhygoel o dreftadaeth ein tref.

2 - Môr-leidr go iawn

Dysgwch am Howell Davies, y môr-leidr deinamig, a fu'n morio ar long y Cadogan o Aberdaugleddau. Yn brentis i'r enwog Barti Ddu, fe groesodd y moroedd mawr o amgylch y Bahamas, Cape Verde ac Affrica. Dewch i ddarganfod hanes Aberdaugleddau fel magwrfa môr-leidr o'r iawn ryw!

Dysgwch am hynt a helynt y cymeriad o Aberdaugleddau a fu'n fôr-leidr am 11 mis, ac na welodd ei ben-blwydd yn 30 oed. Ganed y môr-leidr Howell Davis yn Aberdaugleddau, Sir Benfro yn 1690. Roedd rhai'n ei adnabod fel Hywel. Dechreuodd weithio fel Is-gapten ar long caethweision 'The Cadogan' a gipiwyd gan y môr-leidr Edward England yn 1718. Roedd Howell yn fôr-leidr llwyddiannus ac yn rhaffwr celwyddau heb ei ail ac fe lwyddodd i smalio'i ffordd i gyfoeth a sleifio mas o drwbl. Yn ddyn clyfar a golygus, roedd rhyw hud yn perthyn iddo. Roedd yn gamstar ar esgus bod yn wŷr bonheddig ac roedd yn dwyllwr heb ei ail. Gan iddo



ddefnyddio ei sgiliau'n ofalus, doedd dim angen i Howell fod yn greulon na thywallt gwaed. Bu'n hwylio'r moroedd o amgylch y Bahamas, Cape Verde ac Affrica.

Ar yr adeg hon, fe ymunodd Bartholomew Roberts - Barti Ddu - môr-leidr enwog arall o Sir Benfro â Howell Davis a daeth yn hoff brentis iddo. Llwyddodd Davis i gipio o leiaf 15 llong yn ystod ei oes yn ôl pob sôn. Byddai'n esgus bod yn fasnachwr masnachol neu'n heliwr môr-ladron er mwyn twyllo'i ffordd ar long cyn ei chipio. Un tro, fe aeth Howell i gaer y Royal Africa Company wedi'i wisgo fel gŵr bonheddig a thafllu llwch i lygaid y llywodraethwr. Fe'i gwahoddwyd i dŷ'r Llywodraethwr am ginio lle'r aeth Howell ati i'w ddal yn wystl am arian mawr.

Daeth bywyd Howell fel môr-leidr i ben ar 19 Mehefin 1719, pan gafodd cynllwyn i dwyllo llywodraethwr ynys Príncipe, oedd dan reolaeth Portiwgal, ei drechu ac ymosodwyd ar Howell a'i griw. Cafodd ei saethu bum gwaith yn yr ymosodiad cyn marw.

Etholwyd Bartholomew Roberts yn gapten a dychwelodd yntau i'r ynys gyda'i griw y noson honno i dalu'r pwyth yn ôl am farwolaeth Howell, gan ymosod ar y gaer a lladd y milwyr a'r llywodraethwr. Camodd i esgidiau Howell a dod yn gapten môr-ladron enwog.

Mae'n rhyfeddol meddwl i'r dref bysgota a thwristiaeth hon fagu môr-leidr go iawn.

3 - Aberdaugleddau Shakespeare

O ddociau ffyniannus i atyniad bywiog i dwristiaid, gallwch fwynhau'r cyfan yma'n Aberdaugleddau. Yng ngeiriau William Shakespeare '...how far it is to this same blessed Milford: and by the way tell me how Wales was made so happy as to inherit such a haven...'

Croeso i Farina Aberdaugleddau, ein harbwr naturiol anhygoel, sy'n cynnig rhywbeth at ddant pawb! O olygfeydd godidog i siopau annibynnol; o fariau a chaffis i ganolfan fowlio ac ardal chwarae meddal, mae rhywbeth ar gyfer y teulu cyfan! Gallwch hyd yn oed fynd ar daith drwy hanes anhygoel 'Little New York' yn Amgueddfa Aberdaugleddau!

Yng ngeiriau William Shakespeare '...how far it is to this same blessed Milford: and by the way tell me how Wales was made so happy as to inherit such a haven...' Wel, beth am ymweld â ni i weld drosoch chi eich hun?

Dechreuodd Marina Aberdaugleddau fel 'Milford Docklands', cymuned forfila lewyrchus â'i bryd ar fod yr 'Efrog Newydd' newydd! Dechreuodd y datblygiad yn y flwyddyn 1793, a thros amser mae wedi datblygu'n lle cymdeithasol, addysgol a hwyliog dros ben. Mae rhywbeth i bawb yma.

Mae Amgueddfa Aberdaugleddau ar ei newydd wedd yn eich tywys o ddyfodiad y Crynwyr; trwy garwriaeth yr Arglwydd Nelson a'r Fonesig Hamilton, goroesiad y diwydiant pysgota a ffyniant y diwydiant olew. I'r ifanc eich ysbryd, mae Phoenix Bowl yn cynnig cyfle i hogi'ch sgiliau cystadleuol – ac mae yna rywbeth i'r plantos lleiaf hefyd, gyda lle chwarae meddal Pirate Pete's wedi'i gynllunio i gadw'r to iau yn hapus a diogel! Gall y mwyaf anturus o'ch plith fydd ar drip cwch cyflym arbennig dan ofal Seven Island Tour a mwynhau bywyd gwyllt ysblennydd arfordir Sir Benfro. Mae pedair ynys oddi ar yr arfordir: Sgomer, Gwales a Sgogwm, a enwyd gan yr hen Lychlynwyr, heb anghofio Ynys Dewi.

Mae Ynys Sgomer yn enwog am ei chytref o balod cynhenid, hebogiaid tramor, morloi llwyd a llamhidyddion; lle arall yn y DU y gallech weld y creaduriaid anhygoel mor agos yn y gwyllt?

Ac wedi'r holl gyffro, ewch ati i dretio'ch hun gyda phryd o fwyd yn un o'r bariau neu fwytai rhagorol sy'n edrych dros yr harbwr braf. Yng ngeiriau William Shakespeare '...how far it is to this same blessed Milford: and by the way tell me how Wales was made so happy as to inherit such a haven...'

Gwyddom eich bod yn caru ein marina a'r bobl, ac edrychwn ymlaen at estyn croeso cynnes y gorllewin gwyllt i chi!



4 - Prydferthwch heb ei ail

Mae gan Aberdaugleddau un o aberoedd dyfnaf y byd, ac mae ei harfordir trawiadol o glogwyni garw ac ynysoedd tawel yn hafan i weithgareddau hamdden. Darllenwch ragor a gadewch i ardal Aberdaugleddau, gyda'i chaerau hanesyddol, traethau bach diarffordd, pentrefi tlws a bywyd gwyllt eich swyno.

Aberdaugleddau yw un o aberoedd dyfnaf y byd a'r dyfnaf yng Nghymru. Fe'i lleolir ar arfordir y gorllewin. Mae'r hafan yn cynnwys 22 milltir o ddŵr cysgodol y gellir eu mordwyo, ac mae ei harfordir trawiadol o glogwyni geirwon ac ynysoedd heddychlon yn hafan i weithgareddau hamdden. Bydd treulio'ch dyddiau yn darganfod yr arfordir naturiol gwych hwn yn sicr o roi gwefr i chi.

Mae llond gwlad o anturiaethau yn aros amdanoch ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Wrth grwydro ar hyd ein dyfroedd godidog, fe ddowch ar draws caerau hanesyddol Aberdaugleddau wrth i chi deithio ymlaen at draethau euraidd a phentrefi bach pert, gan fwynhau gwledd o fywyd gwyllt ar eich taith.

Credaf mai'r gwanwyn a'r haf yw'r amser mwyaf hudolus i ymweld â'n glannau a'n harfordir, wrth i'r dyfroedd a'r cynefinoedd bridio unigryw esgor ar gyfoeth o fywyd newydd. Mae morloi i'w gweld yn dowcio yn y ddyfrffordd yn aml. Wrth lywio'ch ffordd tuag at ynysoedd Sgomer a Sgogwm, gallwch weld llamhidyddion, dolffiniaid cyffredin a thrwyn potel, neu hyd yn oed forfil!

Mae triapiau cychod i Ynys Sgomer yn rhai gwirioneddol ysblennydd; mae gan yr ynys rywbeth i bawb. Mae'n fwyaf adnabyddus am ei phoblogaethau bridio o balod, adar drycin Manaw, gwylogod, gweilch y penwaig etc.

Mae'r ddyfrffordd yn lle delfrydol ar gyfer pob math o chwaraeon dŵr poblogaidd, a chewch amser wrth eich bodd yn hwylio, yn mynd ar gwch modur, yn caiacio, hwylyfyrddio neu hyd yn oed yn padlfyrddio ar y tonnau.

Cafodd y straeon hyn eu hymchwilio a'u hysgrifennu gan ddisgyblion Ysgol Aberdaugleddau, sydd wedi defnyddio eu creadigrwydd i adrodd hanes Aberdaugleddau yn eu geiriau eu hunain.

